OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 1155 (Cy. 285)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Ffyrdd Cyswllt tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin rhwng Cylchfan Grove Park a Chylchfan Caerllion, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Tachwedd 2017* |
| *Yn dod i rym* | *6 Rhagfyr 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Rhagfyr 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Ffyrdd Cyswllt tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin rhwng Cylchfan Grove Park a Chylchfan Caerllion, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

---

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 6 Rhagfyr 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y ffyrdd cyswllt" ("*the link roads*") yw'r darnau cyfan o ffyrdd cyswllt yr A4042 tua'r dwyrain a thua'r gorllewin rhwng Cylchfan Grove Park a Chylchfan Caerllion.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r ffyrdd cyswllt.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato ar waith.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Tachwedd 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn cyfan o ffordd gyswllt tua'r dwyrain yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Grove Park hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Caerllion.

Y darn cyfan o ffordd gyswllt tua'r gorllewin yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Caerllion hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Grove Park.